



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dull Cenedlaethol ar Gyfer Eiriolaeth Statudol (Dull Cenedlaethol)

GRŴP GORCHWYL A GORFFEN
2015-2021

Dogfen Etifeddiaeth

Cynnwys

1	Diben yr Adroddiad Etifeddiaeth
2	Y Weledigaeth ar gyfer y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (Dull Cenedlaethol)
4	Elfennau Allweddol Dull Cenedlaethol
4	<ul style="list-style-type: none">• Fframwaith Safonau ac Allbynnau Cenedlaethol
5	<ul style="list-style-type: none">• Diffiniad o Gynnig Gweithredol
6	<ul style="list-style-type: none">• Y broses Cynnig Gweithredol
7	<ul style="list-style-type: none">• Manyleb Gwasanaeth Dull Cenedlaethol
7	<ul style="list-style-type: none">• Adroddiadau Perfformiad Dull Cenedlaethol
9	<ul style="list-style-type: none">• Mecanwaith Asesu Ystod a Lefel (Capasiti Gwasanaeth)
10	Dyraniadau Ariannol
10	Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu sy'n Codi o Gyfarfodydd
11	Y Camau Nesaf
12	Atodiad A: Cylch Gorchwyl (2018-2021)
16	Atodiad B: Adroddiadau Blynyddol Cymru Gyfan 2019-2020 a 2020-21
33	Atodiad C: Dyraniadau Ariannol
36	Atodiad D: Crynodeb o Gamau Gweithredu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Dull Cenedlaethol
53	Geirfa

Diben yr Adroddiad Etifeddiaeth

Dechreuodd y gwaith ar ddatblygu'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn 2015 fel argymhelliad yn adroddiad 2014 'Lleisiau Coll: yr Hawl i gael eu Clywed' (adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc yn y system ofal).

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar wahân, sy'n cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru, i baratoi cynllun gweithredu amlinellol i'w ystyried. Roedd yn cynnwys nodi elfennau allweddol Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (Dull Cenedlaethol), gan gynnwys fframwaith ar gyfer comisiynu, sy'n cyd-fynd â Fframwaith Safonau, Canlyniadau a Pherfformiad Cenedlaethol (y Fframwaith) sy'n seiliedig ar y Safonau Cenedlaethol presennol ar gyfer Eiriolaeth a'r Canllawiau Comisiynu blaenorol.

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol wedi bod ar waith ers mis Gorffennaf 2017, ac mae'n mynd i'r afael â mynediad, argaeledd, a chyflenwad a galw, yn ogystal â bodloni gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Yn 2018, ail-sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i barhau ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau dull cynaliadwy ar gyfer eiriolaeth, nad yw erioed wedi methu ers i ni ddechrau'r daith hon yn ôl yn 2015. Gadewch inni gofio mai'r ffocws yw sicrhau bod plant ledled Cymru yn cael gwasanaeth cyson, rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gefnogi'n llawn o'r cychwyn cyntaf.

Nid yw eiriolaeth yn ddarpariaeth newydd i awdurdodau lleol, mae'n ddyletswydd statudol arnynt, ond fel rhan o'r Dull Cenedlaethol, rydym wedi datblygu cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc a ategir gan ganllawiau a rheoliadau statudol. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu dull cyson cenedlaethol mewn perthynas â chymorth eiriolaeth.

Mae'n sicrhau ymhellach bod gwasanaethau yn gyson ac yn cael eu cydgysylltu ar draws y chwe

rhanbarth drwy fanyleb gwasanaeth a thempled adrodd ar berfformiad cyffredin, gan ddarparu ar gyfer adroddiadau tystiolaeth feintiol ac ansoddol unffurf a chyson ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Roedd rhannu dysgu o brofiad a rhwydweithiau proffesiynol yn amhrisiadwy ac roedd yr aelodaeth yn cynnwys ADSS Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLLC), y chwe Rhanbarth Awdurdod Lleol, Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru, NYAS Cymru, ynghyd â chynrychiolwyr o Gomisiynydd Plant Cymru, Voices From Care Cymru, a Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPAPG).

Fel grŵp, rydym i gyd yn credu bod gan eiriolaeth rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn golygu cyfrannu at y penderfyniadau a wneir am eu hanghenion gofal a chymorth ac am ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Ein cymhelliant yn y ddogfen etifeddiaeth hon yw rhoi cipolwg ar sut y mae aelodau'r Grŵp (Grwpiau) Gorchwyl a Gorffen wedi cyflawni eu dyletswyddau dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r ddogfen yn nodi'r cyflawniadau sydd wedi'u gwneud a'r effaith y mae'r penderfyniadau hyn wedi'i chael ar blant a phobl ifanc, pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol i'w cynorthwyo i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau.

Ein gobaith hefyd, drwy edrych yn ôl ar ein taith a'i rhannu, yw y gallai ein Grŵp olynol roi hwb i gam nesaf y Dull Cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth ledled Cymru.

Y Weledigaeth ar gyfer y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (Dull Cenedlaethol)

Ar ran Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Dr Mike Shooter adolygiad strategol o'r dystiolaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol i blant a phobl ifanc yn 2014. Yn dilyn yr adolygiad hwn, gwahoddodd y Gweinidogion lywodraeth leol (drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru i gyflwyno model ar gyfer sicrhau dull cenedlaethol o ymdrin â Gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol Statudol (SIPAS) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a grwpiau penodedig o blant mewn angen.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar eiriolaeth, dan gadeiryddiaeth ADSS Cymru, ym mis Rhagfyr 2014 ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ADSS Cymru, gan gynnwys Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a nifer o Benaethiaid Gwasanaethau Plant, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) Cymru, CLILC a Darparwyr Eiriolaeth.

Y dasg oedd datblygu'r elfennau allweddol o Ddull Cenedlaethol a ddylai fod yn gydnaws â Fframwaith Safonau a Chanlyniadau ac archwilio'r argymhelliad i sicrhau 'cynnig gweithredol' adroddiad 2014 'Lleisiau Coll: Hawl i gael eu Clywed'. Roedd y model Dull Cenedlaethol i'w gyflawni drwy awdurdodau arweiniol o fewn Cydweithrediadau Gwella Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n bodoli eisoes. Darparodd Llywodraeth Cymru yr adnodd o swydd wedi'i secondio, i ymgymryd â rôl rheolwr y prosiect.

Ehangwyd aelodaeth y grŵp i gynnwys Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaethau Plant (HOCS) fel cynrychiolwyr o bob un o'r rhanbarthau, cynrychiolwyr o AGGCC, darparwyr eiriolaeth y trydydd sector, CLILC a Cascade – Prifysgol Caerdydd.

Un o egwyddorion allweddol sy'n sail i waith y Grŵp oedd sicrhau cyfraniad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yng nghamau allweddol y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Dull Cenedlaethol. I wneud hyn bu aelodau'n ymgysylltu, ymgynghori a chymryd rhan â grwpiau plant a phobl ifanc sy'n bodoli'n barod ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Fel rhan o'i waith, bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn nodi, adolygu a chynllunio'r cydrannau sydd eu hangen i gomisiynu a darparu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol statudol rhanbarthol cyson ledled Cymru yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau.

Roedd hyn yn cynnwys datblygu elfennau allweddol Dull Cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth, yn cyd-fynd â Fframwaith Safonau a Chanlyniadau.

Gofynnwyd i'r grŵp archwilio:

- yr argymhelliad yn 'Lleisiau Coll: yr Hawl i gael eu Clywed' (adroddiad y Comisiynydd Plant yn 2014 ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc yn y system ofal) mewn perthynas â 'chynnig gweithredol'; a
- sut y gellid cyflwyno model y dull cenedlaethol ar lefel ranbarthol drwy awdurdodau arweiniol yn y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n bodoli eisoes.

Arweiniodd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen at ddatblygu Achos Busnes.

Cefnogir y Dull Cenedlaethol gan Fframwaith sy'n cael ei ategu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol drwy awdurdodau arweiniol o fewn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bu Uwch Grŵp Arweinyddiaeth o randdeiliaid allweddol yn goruchwyllo'r gwaith o lunio a gweithredu'r Fframwaith. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad drwy ddarparu cyllid i gefnogi darparu eiriolaeth, yn enwedig y 'cynnig gweithredol'.

Sicrhaodd ADSS Cymru gytundeb cyd-Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru.

Byddai datblygiadau'n archwilio ac yn nodi'r argymhelliad 'cynnig gweithredol' ac yn gwella rhianta corfforaethol rhagweithiol. Rhannodd swyddfa'r Comisiynydd Plant eu dadansoddiad o ymatebion awdurdodau lleol i'w diweddariad diweddaraf o Lleisiau Coll gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Rhagwelwyd y byddai'r Dull Cenedlaethol yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau arweiniol o fewn y chwe chydweithrediad gwella rhanbarthol presennol. Dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd ddatblygu fformat cyffredin ar gyfer cynlluniau gweithredu ym mhob un o'r chwe chydweithrediad, ynghyd â threfniadau i gefnogi pob cydweithrediad i weithredu cynlluniau gweithredu unigol ac ar gyfer cydgyssylltu datblygiadau er mwyn sicrhau gweithredu cyson.

Cytunwyd mai'r ffocws uniongyrchol fyddai sicrhau'r hawliau eiriolaeth "statudol" presennol. Byddai ystyried uwchraddio i eiriolaeth "gyffredinol" ehangach a gynhwysir o dan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhan o ystyriaethau'r dyfodol.

Lluniodd ADSS Cymru a CLILC Gynllun Gweithredu i roi'r Dull Cenedlaethol ar waith, a chytunodd pob awdurdod lleol yng Nghymru ar y cynllun.

Nododd y Cynllun Gweithredu elfennau allweddol Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (Dull Cenedlaethol), gan gynnwys fframwaith ar gyfer comisiynu sy'n cyd-fynd â Fframwaith Safonau, Canlyniadau a Pherfformiad Cenedlaethol (y Fframwaith). Byddai'r rhain yn seiliedig ar y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth presennol a'r Canllawiau Comisiynu blaenorol.

Mae pob un o'r cydrannau hyn yr un mor bwysig â'i gilydd, ac ni ddylid gwahanu na gwanhau'r Model presennol, y bwriedir iddo sicrhau dull cenedlaethol ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol yng Nghymru.

Elfennau Allweddol Dull Cenedlaethol

Nododd a datblygodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y cydrannau allweddol canlynol:

- **Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol (y Fframwaith)** – gan gynnwys dull ar gyfer y ‘cynnig gweithredol’ o eiriolaeth a nodwyd yn ‘Lleisiau Coll’ a mapio’r Fframwaith i’r Datganiad Llesiant sy’n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.
- **Manyleb Gwasanaeth** – (darparu manylebau cyson ar gyfer comisiynu gwasanaethau).
- **Mecanwaith Ystod a Lefel** – (capasiti gwasanaeth) a gymhwyswyd gennym i’r boblogaeth gymwys yn lleol ac yn rhanbarthol ac sy’n cynorthwyo gyda phwyso a mesur gofynion capasiti gwasanaeth a chostau cysylltiedig.
- **Templed Adrodd ar Berfformiad** – darparu’r dystiolaeth a’r ystadegau a nodwyd yn y Fframwaith at ddibenion monitro ansawdd a pherfformiad gwasanaethau a chanllawiau cysylltiedig.

Mae dogfennau sy’n ymwneud â’r Dull Cenedlaethol ar gael yma [llyw.cymru/grwp-gorchwyl-gorffen-ggag-dull-cenedlaethol-o-eiriolaeth-statudol-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc](#)

Fframwaith Safonau ac Allbynnau Cenedlaethol

Mae’r Dull Cenedlaethol wedi bod ar waith ers ei weithredu ym mis Gorffennaf 2017.

Yn 2018, cytunodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar y pryd y dylai Llywodraeth Cymru, drwy’r Grŵp Cynghori’r Gweinidog (MAG) – Gwella Canlyniadau i Blant sy’n Derbyn Gofal, sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Diben a chylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd cynghori ar weithredu, adolygu a monitro effeithiolrwydd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth sy’n cynnwys yr elfen cynnig gweithredol.

Yn ystod ei oes, cyfrannodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen at gyngor Gweinidogol drwy’r Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar fater cynnydd y Dull Cenedlaethol, a hunny bob chwarter yn dilyn pob cyfarfod.

Mae Cylch Gorchwyl Grŵp Gorchwyl a Gorffen 2018-2021 ar gael yn **Atodiad A**.

Mae’r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol wedi’i fapio i’r Datganiad Llesiant sy’n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn dangos sut y gall awdurdodau lleol ddangos tystiolaeth o’r ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant drwy gael mynediad at eiriolaeth h.y. ‘Sicrhau hawliau a hawliadau’, ‘Diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod’.

Mae’n gonglfaen i’r holl elfennau eraill o fewn y Dull Gweithredu Cenedlaethol er mwyn nodi a llywio anghenion lleol fel rhan o drefniadau comisiynu ar draws y chwe ardal gydwethredol.

Mae’r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol (y Fframwaith) yn adeiladu ar y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003). Cwblhawyd ymgynghoriad ar fersiwn gynharach o’r Fframwaith ond gohiriwyd ei gyhoeddi oherwydd bod yr amgylchedd yn newid.

Roedd yr ymgynghoriad cynharach wedi cadarnhau bod rhanddeiliaid yn fodlon ar y datganiadau canlyniadau. Diwygiwyd cais gan blant a phobl ifanc y dylid ail-ystyried y drefn flaenoriaeth i ddarllen fel a ganlyn:

1. Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arnyn nhw.
2. Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn.
3. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio.
4. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso, ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu cefnogi.
5. Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dylunio, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau eiriolaeth.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol yn 2017. **Fframwaith safonau a chanlyniadau cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc.**

Mae'r Fframwaith diwygiedig a gyhoeddwyd ar 20 Awst 2019 yn cynnwys y Datganiadau Canlyniadau uchod ac yn nodi nifer o safonau atodol i gefnogi pob un ohonynt hefyd. Manylir ar y gwasanaeth y gall plant a phobl ifanc ei ddisgwyl o ganlyniad i bob safon, ac yna ceir disgrifiad o sut y gall y comisiynwyr a'r darparwyr eiriolaeth proffesiynol annibynnol ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni'r safonau hynny ac yn cyflawni'r Datganiadau Canlyniadau cyffredinol.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys gofyniad i ddarparu'r 'cynnig gweithredol' fel y'i nodir yn 'Lleisiau Coll – Hawl i Gael eu Clywed' (2014) ynghyd â diffiniad clir o sut y dylid hwyluso cyfarfod un-i-un wyneb yn wyneb â'r gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol. **Fframwaith safonau a chanlyniadau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.**

Diffiniad o Gynnig Gweithredol

Cytunwyd ar y diffiniad canlynol o gynnig gweithredol gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Ebrill 2019.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gynnig gweithredol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol a ddyrennir iddynt yn:

- hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc am yr hawl hon;
- darparu gwybodaeth am y gwasanaeth;
- sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn ymwybodol y bydd y gwasanaeth eiriolaeth yn cael digon o wybodaeth i allu cysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc oni bai ei fod yn gwrthod y gwasanaeth hwn yn benodol h.y. optio allan;
- gwneud cofnod o unrhyw benderfyniad gan y plentyn neu'r person ifanc i optio allan o'r gwasanaeth hwn a pham;
- darparu manylion cyswllt ar gyfer y plentyn a'r person ifanc i'r Gwasanaeth Eiriolaeth.

Bydd y gwasanaeth eiriolaeth yn:

- cysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc i drefnu i wneud y 'cynnig gweithredol';
- cael cyfarfod 'cynnig gweithredol' gyda'r plentyn neu'r person ifanc;
- cofnodi'r rhesymau pam y gwrthodir cyfarfodydd;
- cofnodi canlyniad y cyfarfod cynnig gweithredol;
- darparu cymorth eiriolaeth fel y cytunwyd gyda'r plentyn neu'r person ifanc;
- cadarnhau gyda'r gweithiwr cymdeithasol a oes cyfarfod wedi'i gynnal ai peidio.

Nid yw optio allan yn golygu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc hawl i eiriolwr mwyach. Os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn penderfynu maes o law ei fod eisiau eiriolaeth, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi ei fanylion i'r gwasanaeth eiriolaeth i drefnu cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

Yn ogystal â'r cynnig gweithredol, mae gan bob plentyn sydd â chynllun gofal a chymorth hawl i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth hefyd, a bydd ei weithiwr cymdeithasol yn trafod hyn yn uniongyrchol gyda'r plentyn.

Y Broses Cynnig Gweithredol

Gweithiwr Cymdeithasol	Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (EPA)	Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA)
<p>Hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc am ei hawl</p>	<p>Cysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc i drefnu i wneud y 'cynnig gweithredol'</p>	<p>Gwirio a chofnodi a gynhaliwyd y cyfarfod cynnig gweithredol</p>
<p>Darparu gwybodaeth am y gwasanaeth</p>	<p>Cael cyfarfod 'cynnig gweithredol' gyda'r plentyn neu'r person ifanc</p>	<p>Gwirio bod gan y plentyn neu'r person ifanc ddealltwriaeth ddigonol o'r cynnig gweithredol</p>
<p>Sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn ymwybodol y bydd y gwasanaeth eirioli yn cael digon o wybodaeth i allu cysylltu ag ef oni bai ei fod yn gwrthod y gwasanaeth yn benodol h.y. optio allan</p>	<p>Cofnodi'r rhesymau dros wrthod cyfarfodydd</p>	<p>Wedi defnyddio eiriolaeth ai peidio</p>
<p>Cofnodi unrhyw benderfyniad gan y plentyn neu'r person ifanc i optio allan o'r gwasanaeth hwn a pham</p>	<p>Cofnodi canlyniad y cyfarfod cynnig gweithredol</p>	<p>Rhesymau pam ddim os ydynt yn hysbys</p>
<p>Sarparu manylion cyswllt ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc i'r Gwasanaeth Eirioli</p>	<p>Darparu cymorth eiriolaeth fel y'i cytunwyd gyda'r plentyn neu'r person ifanc</p>	<p>A oes angen atgyfeiriad eiriolaeth nawr?</p>
<p>Cadarnhau gyda'r gweithiwr cymdeithasol a yw'r cyfarfod wedi'i gynnal ai peidio</p>		

Mae'r uchod yn seiliedig ar y broses fusnes tri cham syml canlynol:

- Mae Gweithiwr Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth i'r plentyn/person ifanc am eiriolaeth annibynnol ac yn rhoi gwybod y bydd NYAS Cymru/Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru mewn cysylltiad ac yn atgyfeirio i'r darparwr eiriolaeth perthnasol;
- Darparwr Eiriolaeth yn 'cysylltu' â'r plentyn/person ifanc i ddarparu gwybodaeth am eiriolaeth a gwneud y Cynnig Gweithredol i gyfarfod – gan gofnodi rhesymau pam nad yw'r plentyn/person ifanc yn manteisio ar y cyfle hwn fel y bo'n briodol;
- Darparwr Eiriolaeth yn cynnal cyfarfod Cynnig Gweithredol;
- Mae Swyddog Adolygu Annibynnol/Cadeirydd Annibynnol yn gwirio a chofnodi bod y Cynnig Gweithredol wedi'i wneud.

Cafodd y diffiniad y cytunwyd arno o gynnig gweithredol ei gynnwys yn y fersiwn wedi'i diweddarau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 ac mae ar gael yn y [gwasanaethau cymdeithasol-a-llesiant-cymru-act-2014-rhan-10-code-of-practice-advocacy.pdf](#).

Manyleb Gwasanaeth Dull Cenedlaethol

Mae'r grŵp wedi datblygu Manyleb Gwasanaeth gynhwysfawr i'w defnyddio fel templed safonol ar gyfer yr holl wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol a gomisiynir yn rhanbarthol. Mae'r fanyleb gwasanaeth yn cyflawni gofynion y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau.

Gellir gwella'r fanyleb ymhellach o ranbarth i ranbarth drwy gomisiynu gwasanaethau ychwanegol, y gellir eu nodi yn yr atodiadau. Gellir cynnwys gwasanaethau eraill fel Gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol gyda disgrifiad gwasanaeth ar wahân a chyllid ychwanegol sydd wedi'i nodi'n glir. Yn yr un modd, gellir nodi defnydd anstatudol ychwanegol o gymorth eiriolaeth megis o fewn Cynadleddau Grŵp Teuluol yn yr atodiadau hefyd gyda lefelau ariannu wedi'u nodi ar wahân. Fel hyn, ni fydd y tybiaethau a'r cyfrifiadau y mae'r mecanwaith Ystod a Lefel arfaethedig yn seiliedig arnynt yn cael eu gwahanu gan alw ar gapasiti heb ei gyfrif.

Adroddiadau Perfformiad Dull Cenedlaethol

Mae'r Templed Adrodd Cenedlaethol yn un o brif elfennau'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol. Fe'i cyflwynwyd er mwyn sicrhau bod comisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth ledled Cymru yn cael data cyson mewn perthynas â darpariaeth Gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol a'r defnydd ohonynt yn eu hardal.

Datblygwyd templed adrodd i'w ddefnyddio gan wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol sy'n eu galluogi i gasglu data sy'n ofynnol yn gyson ar gyfer adrodd ar berfformiad a monitro ansawdd.

Mae mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt wedi'u cynnwys fel rhan o'r templed Adrodd Cenedlaethol. Mae'r templed yn gallu trosi data demograffig a pherfformiad i mewn i graffiau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd monitro ansawdd chwarterol a blynyddol ochr yn ochr â sylwebaeth ansoddol, adborth anecdotaidd ac astudiaethau achos. Gellir cyfuno'r adroddiadau hyn ar gyfer adroddiadau rhanbarthol a/neu genedlaethol sy'n darparu ar gyfer cysondeb ystadegau ledled Cymru.

Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y mesurau perfformiad canlynol a chawsant eu cynnwys yn y templed adrodd Cenedlaethol:

Data Awdurdodau Lleol	
Nifer y plant a phobl ifanc cymwys sy'n bum mlwydd oed a throsodd sydd:	
<ul style="list-style-type: none"> • Yn dechrau Derbyn Gofal • Yn dod yn destun Cynhadledd Amddiffyn Plant 	
Nifer y plant a'r bobl ifanc gymwys sy'n derbyn gwybodaeth am Gynnig Gweithredol ac a hysbysir y bydd y Darparwr Eiriolaeth mewn cysylltiad	
Nifer y plant a'r bobl ifanc cymwys yr atgyfeirir at Ddarparwr Eiriolaeth	
Data Darparwyr Eiriolaeth	
Nifer y 'cysylltiadau' Cynnig Gweithredol a wneir gyda phlant a phobl ifanc	
Nifer y 'Cyfarfodydd' Cynnig Gweithredol a gynhelir gyda phlant a phobl ifanc	
Cofnodi rhesymau pam na fanteisiwyd ar y Cyfarfod Cynnig Gweithredol	
Nifer y cyfarfodydd cynnig gweithredol nad ydynt yn arwain at eiriolaeth broffesiynol annibynnol	
Y nifer sy'n arwain at gymorth eiriolaeth parhaus yn cael ei ddarparu	
Nifer yr atgyfeiriadau Eiriolaeth sy'n Seiliedig ar Broblemau a dderbyniwyd:	
<ul style="list-style-type: none"> • Gofal a Chymorth • Amddiffyniad gofal a chymorth • Plant sy'n Derbyn Gofal • Ymadawyr gofal 	

Mae canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn cyd-fynd â'r Templed Adrodd Cenedlaethol i sicrhau dull cydgysylltiedig rhwng darparwyr eiriolaeth mewn perthynas â chwblhau'r Templed Adrodd Cenedlaethol a sicrhau bod comisiynwyr awdurdodau lleol yn gwybod beth i'w ddisgwyl ganddo.

llyw.cymru/grwp-gorchwyl-gorffen-ggag-dull-cenedlaethol-o-eiriolaeth-statudol-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc

Bwriedir mai'r Templed Adrodd Cenedlaethol fydd yr unig adroddiad a dderbynnir gan gomisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth bob chwarter. Bydd adroddiad blynyddol sy'n defnyddio'r un templed yn cael ei gwblhau gan y darparwr gwasanaeth hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru i gasglu'r ystadegau chwarterol ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac i goladu Adroddiadau Blynyddol Cymru Gyfan.

Mae **Atodiad B** yn rhoi manylion y data a gesglir drwy Adroddiadau Blynyddol Cymru Gyfan ar gyfer 2019-20, a 2020-21.

Mecanwaith Asesu Ystod a Lefel (Capasiti Gwasanaeth)

Yn 2015, comisiynodd y grŵp Cordis Bright i ddylunio a datblygu offeryn i gynorthwyo comisiynwyr i gyfrifo'r gofynion capasiti ar gyfer eu gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol lleol/rhanbarthol. Buont yn gweithio'n agos gyda'r darparwyr eiriolaeth ar y grŵp a chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Plant.

Cynhyrchodd yr offeryn gost uned am 'awr eiriolaeth', a oedd yn cynnwys addasiadau ar gyfer teithio, lleoliadau y tu allan i'r sir a gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol. Yna cymhwyswyd yr offeryn i'r lefelau poblogaeth fel y'u nodwyd gan nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) a Phlant mewn Angen (PMA) ym mhob awdurdod lleol. Cafodd costau rheoli/cydgysylltu a swyddogaethau gweinyddol eu cyfrifo a'u rhannu ar draws pob rhanbarth er mwyn sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl.

Dyraniadau Ariannol

Bydd gweithredu'r Dull Cenedlaethol yn costio rhwng £1 miliwn ac £1.1 miliwn. Yn Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Ddarpariaeth Statudol, yn 2017, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd ymrwymiad y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad o hyd at £550,000 i Gydweithrediadau Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu'r cynnig gweithredol yn llawn a chefnogi'r dull gweithredu. Daw gweddill y cyllid o gronfeydd yr Awdurdodau Lleol eu hunain.

Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu, £550,000 i'r Dull Cenedlaethol yn flynyddol. Dyrennir llythyr dyfarnu grant i bob un o'r chwe arweinydd rhanbarthol.

Mae **Atodiad C** yn rhoi dadansoddiad o'r cyllid a roddwyd i bob un o'r chwe Rhanbarth yn ystod oes y Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhwng 2017 a 2021, yn seiliedig ar y cyllid fformiwla y cytunwyd arno. Cyfanswm yr ymrwymiad a'r gwariant yn ystod y cyfnod hwn oedd £2.2m.

Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu sy'n codi o Gyfarfodydd

Ceir crynodeb o'r holl Bwyntiau Gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod oes y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn **Atodiad D**.

Er chwilio'n helaeth, nid yw'r ysgrifenyddiaeth bresennol wedi gallu dod o hyd i unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â chymeradwyo rhai camau gweithredu a oedd wedi aros ar agor. Yn y cyfarfod terfynol ar 25 Ionawr 2021, gan fod gweithrediadau'r dyfodol yn y 5 mlynedd

ddilynol, a oedd yn ymwneud â'r camau agored, wedi'u cytuno, penderfynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei bod yn dderbyniol cau'r pwyntiau gweithredu agored.

Bydd unrhyw bwyntiau gweithredu agored o'r cyfarfod diwethaf ar 25 Ionawr 2021 yn cael eu dwyn ymlaen i'w cwblhau gan y Grŵp newydd, y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, a fydd yn parhau â'r gwaith ar y Dull Cenedlaethol.

Y Camau Nesaf

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ehangder a graddfa'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Eiriolaeth, wrth sefydlu'r Dull Cenedlaethol.

Er bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Eiriolaeth bellach wedi dod i ben, bydd y ffocws strategol ar gyflawni dyletswyddau mewn perthynas ag eiriolaeth yn parhau. Er mwyn cyflawni hyn sefydlwyd Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru. Bydd y fforwm yn cyfarfod bob chwe mis.

O dan y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, mae Ffora Darparwyr Rhanbarthol (RPF) wedi'u sefydlu ym mhob un o'r chwe Rhanbarth, a fydd yn darparu'r mecanwaith i reoli a darparu'r gwasanaeth eiriolaeth sy'n benodol i anghenion y Rhanbarth. Yn ogystal, bydd hyn yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau ar gomisiynu, a'r Mecanwaith Ystod a Lefel. Bydd y Ffora Rhanbarthol yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (neu gyfwerth) fel Comisiynydd y gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter.

Cynigir bod y grwpiau Fforwm Darparwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolaeth o blith darparwyr a chomisiynwyr.

Ar ôl cytuno ar y dull hwn, drafftiwyd Cylch Gorchwyl y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol i'w ystyried yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021.

Atodiad A

Cylch Gorchwyl (2018-2021)

Cylch Gorchwyl neu Ddatganiad o Egwyddorion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Cytunwyd a Diweddarwyd 01.07.2019, Diweddarwyd 22/07/2020, cynhaliwyd cyfarfodydd drwy Microsoft Teams o fis Mawrth 2020).

1. Cefndir

Yn 2014, ar ran Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Dr Mike Shooter adolygiad strategol o'r dystiolaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol i blant a phobl ifanc. Yn dilyn yr adolygiad hwn, gwahoddod y Gweinidogion lywodraeth leol (drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) i gyflwyno model ar gyfer gweithredu dull cenedlaethol o ymdrin â gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol statudol i blant sy'n derbyn gofal a grwpiau penodol o blant mewn angen.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer eiriolaeth, o dan gadeiryddiaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Cymerodd y Grŵp gyfrifoldeb dros ddatblygu elfennau allweddol Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth, a fyddai'n gydnaws â Fframwaith Safonau a Chanlyniadau. Gofynnwyd i'r Grŵp edrych ar y canlynol:

- yr argymhelliaid gan 'Lleisiau Coll: yr Hawl i gael eu Clywed' (adroddiad y Comisiynydd Plant ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc yn y system ofal) mewn perthynas â 'chynnig gweithredol';

- sut y gellid cyflwyno model y dull cenedlaethol ar lefel ranbarthol drwy awdurdodau arweiniol yn y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n bodoli eisoes.

Arweiniodd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen at ddatblygu Achos Busnes.

Cefnogir y dull cenedlaethol gan fframwaith sy'n cael ei danategu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sef drwy awdurdodau arweiniol o fewn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Goruchwyliwyd y gwaith o gynllunio a gweithredu'r fframwaith gan Uwch Grŵp Arweinyddiaeth o randdeiliaid allweddol. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad drwy ddarparu cyllid i gefnogi'r ddarpariaeth eiriolaeth, yn enwedig y cynnig gweithredol, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd a'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno ar gyllid hyd at £550k i gefnogi'r dull cenedlaethol yn 2017-18.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y byddai'r £550k yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2018-19 neu 2019-20, gan ddibynnu ar hynt y gwaith gweithredu.

2. Cyfarfodydd ac Aelodaeth y Grŵp

Cyfarfodydd

Trefnir cyfarfodydd bob chwarter, gyda'r agenda a phapurau'n cael eu dosbarthu o leiaf pedwar diwrnod ymlaen llaw i sicrhau bod gan yr aelodau ddigon o amser i ddarllen ac ystyried eu cynnwys

Cynhelir cyfarfodydd ym Mharc Cathays, Caerdydd. Er y cytunwyd ar ddyddiadau ar eu cyfer, gall y dyddiadau newid os na fydd y Cadeirydd ar gael. Bwriedir eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

Dyddiad y cyfarfod	Amser	Lleoliad
21 Chwefror 2018	12:30 – 14:00	Ystafell: 4.07, CP2
9 Ebrill 2018	13:00 – 15:00	Ystafell: Caernarfon, CP2 (fideo-gynadledda)
26 Mehefin 2018	10:30 – 12:30	Ystafell: Ystafell Gynadledda 5 CP2 (fideo-gynadledda)
17 Medi 2018	13:00 – 15:00	Ystafell: Cydweli CP2 (fideo-gynadledda)
23 Tachwedd 2018	13:30 – 15:00	Ystafell: 40.03 CP2 (fideo-gynadledda)
5 Ebrill 2019	11:00 – 12:30	Ystafell: 4.03 CP2 (fideo-gynadledda)
18 Hydref 2019	10:00 – 12:00	Ystafell: Ystafell Drafnidiaeth 2.20, CP2 (fideo-gynadledda)
13 Mawrth 2020	11:00 – 13:00	Ystafell: Ynys Mon, CP2/Aberystwyth (fideo-gynadledda)
23 Gorffennaf 2020	09:00 – 10:30	Drwy Microsoft Teams
20 Tachwedd 2020	13:00 – 14:15	Drwy Microsoft Teams
25 Ionawr 2021	10:00 – 11:15	Drwy Microsoft Teams

Aelodaeth o'r Grŵp

1. Roedd aelodaeth yn digwydd drwy wahoddiad. Ceisiwyd sicrhau amrywiaeth o safbwyntiau ac arbenigedd yn y maes hwn a chytunodd y Cadeirydd ar yr enwebiadau canlynol.

2. Dyma aelodaeth graidd y Grŵp:

Aelod	Sefydliad
Albert Heaney (2018-2020) (Cadeirydd)	Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru
Alistair Davey (2020-2021) (Cadeirydd)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru
Sean O'Neill	Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Cymru Gyfan (plant)
Rachel Thomas	Swyddfa'r Comisiynydd Plant (Chwefror 2018 – Ebrill 2019)
Elizabeth Flowers	Swyddfa'r Comisiynydd Plant (cynrychiolydd newydd o fis Ebrill 2019)
Jackie Murphy	Darparwyr Eiriolaeth (Tros Gynnal)
Sharon Lovell	Darparwyr Eiriolaeth (Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol)
Deborah Jones/Emma Phipps	Voices from Care Cymru
Stewart Blythe	CLILC
Dave Howes	Arweinydd Eiriolaeth ADSS Cymru
Cynrychiolwyr Partneriaethau Rhanbarthol	Rhanbarth
Marian Hughes	Gogledd Cymru (Chwefror 2018 – Ebrill 2019)
Craig Macleod	Gogledd Cymru (cynrychiolydd newydd o fis Ebrill 2019)
Joanna Harris	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ann Batley	Cwm Taf (Chwefror 2018 – Mai 2019)
Annabel Lloyd	Cwm Taf (cynrychiolydd newydd o fis Gorffennaf 2020)
Christopher Francis	Bae'r Gorllewin

Cynrychiolwyr Partneriaethau Rhanbarthol	Rhanbarth
Rachel Evans/Karen Conway	Caerdydd a'r Fro
Gareth Jenkins	Gwent

Llywodraeth Cymru	
Liz Pearce	Pennaeth Diogelu ac Eirioli, Llywodraeth Cymru (Chwefror 2018 – Hydref 2019)
Sarah Cooper	Pennaeth Diogelu ac Eirioli, Llywodraeth Cymru (o fis Rhagfyr 2019)
Ruth Akers (Secretariat)	Rheolwr Polisi Eiriolaeth, Llywodraeth Cymru

Nod: Gall aelodau anfon cynrychiolydd os na allant fod yn bresennol, ond rhaid i'r Cadeirydd gytuno ar hyn cyn y cyfarfod.

3. Rôl yr aelodau unigol:

- Dod â'ch profiad a'ch arbenigedd ymarferol unigol i'r grŵp.

4. Rôl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- Monitro a sbarduno'r gwaith gweithredu, ac adolygu effeithiolrwydd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc.
- Cyfrannu at y cyngor gweinidogol a roddir i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant drwy Grŵp Cyngori'r Gweinidog o ran hynt y dull cenedlaethol, yn chwarterol ar ôl pob cyfarfod.
- Nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda wrth weithredu'r dull cenedlaethol a pha rwystrau sy'n bodoli.
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r dull cenedlaethol ymhellach.
- Ystyried yr wybodaeth am berfformiad rhanbarthol.

5. Cyfrifoldebau:

- Cyfrifoldeb yr aelodau unigol yw cyfrannu ar ran y grwpiau y maent yn eu cynrychioli a rhoi adborth i'r grwpiau hynny.
- Bydd hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cyfrannu at y gwaith, ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau a'r cynnydd a wneir gan y grŵp. Bydd gofyn i'r aelodau roi adborth ar y gweithgarwch hwn mewn cyfarfodydd.
- Bydd diweddariadau gwybodaeth rheolaidd yn cael eu darparu i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn cael gwybod am ddatblygiadau a chynnydd.

6. Cynnyrch Terfynol/Llinell Amser:

- Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn 2021.

Atodiad B

Adroddiad Cymru Gyfan 2019-2020

Adroddiad Blynyddol Wedi'i Goladu Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Prif Adroddiad

Yr adroddiad hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf sy'n rhoi manylion gweithgaredd eiriolaeth ledled Cymru. Er bod ystadegau ar gael ar gyfer y llynedd, oherwydd newidiadau i'r Templed Adrodd Cenedlaethol ganol blwyddyn, ni fu'n bosibl eu coladu mewn un ddogfen.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020, cynigiodd gwasanaethau eiriolaeth statudol ddau fath o ymyrraeth eiriolaeth: y Cynnig Gweithredol ac Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion. Mae'n gadarnhaol nodi bod cyfanswm o 4963 o blant a phobl ifanc wedi derbyn eiriolaeth rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020. Derbyniodd tua 1634 o blant a phobl ifanc y Cynnig Gweithredol, gyda 1243 o blant a phobl ifanc yn derbyn y Cynnig Gweithredol ac yn symud ymlaen i Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion. Fe wnaeth 3329 o blant a phobl ifanc eraill dderbyn gyrchu Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion, gyda 4792 o faterion.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd ar draws yr holl weithgaredd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol:


- Cynyddodd atgyfeiriadau Cynigion Gweithredol 62.1% o 1008.
- Cynyddodd nifer y Cynigion Gweithredol a dderbyniwyd 66.1% o 748.

- Cynyddodd nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion 45.6% o 2286.
- Cynyddodd nifer y materion a gyflwynwyd 57% o 3051.


Yn ystod y flwyddyn, bu i 1733 o blant a phobl ifanc dderbyn gwasanaethau Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion nad oeddent erioed wedi derbyn eiriolaeth o'r blaen. Roedd mwy o blant yn derbyn gofal wedi derbyn Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion nag unrhyw grŵp arall, ond derbyniodd mwy o blant a phobl ifanc ym maes Amddiffyn Plant y Cynnig Gweithredol.

Mae'r siartiau canlynol yn dangos y wybodaeth ddemograffig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn derbyn gwasanaethau eiriolaeth ynghyd â rhywfaint o fanylion ynghylch y mathau o faterion sydd angen cefnogaeth.


1a. Achosion Eiriolaeth – Pobl Ifanc




1b. Achosion Eiriolaeth – Ymyriadau




2a. Meini Prawf Cymhwyster: Cynnig Gweithredol



2b. Meini Prawf Cymhwyster: Seiliedig ar Faterion




3a. Demograffeg: Rhywedd – Cynnig Gweithredol




823	Benyw
808	Grwyw
2	Trawsryweddol
1	Rhywedd Niwtral
0	Mae'n well gen i beidio â dweud

3b. Demograffeg: Rhywedd – Seiliedig ar Faterion




1,728	Benyw
1,586	Grwyw
14	Trawsryweddol
1	Mae'n well gen i beidio â dweud
0	Rhywedd Niwtral


3c. Demograffeg: Ethnigrwydd – Cynnig Gweithredol




3d. Demograffeg: Ethnigrwydd – Seiliedig ar Faterion




3e. Demograffeg: Oedran – Cynnig Gweithredol




3f. Demograffeg: Oedran – Seiliedig ar Faterion



4. Ffynhonnell Atgyfeirio – Seiliedig ar Faterion yn unig




5. Natur y Materion a Gyflwynwyd




* Materion yn yr ysgol gan gynnwys: AAA / ADY, gwaharddiadau, bwlio, trafnidiaeth.

** Materion yn seiliedig ar Wasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys: perthynas â'r gweithiwr, cynllun gofal, y gwasanaeth a ddarperir.

6a. Perfformiad Gwasanaeth – Cynnig Gweithredol



6b. Perfformiad Gwasanaeth – Seiliedig ar Faterion



Adroddiad Blynyddol Wedi'i Goladu Ebrill 2020 – Mawrth 2021

Prif Adroddiad

Dyma'r ail adroddiad blynyddol sy'n rhoi manylion gweithgaredd eiriolaeth ledled Cymru. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gwelwyd diwygiad pellach i'r Templed Adrodd Cenedlaethol sydd wedi caniatáu inni ddal rhywfaint o ddata ychwanegol mewn perthynas â'r Cynnig Gweithredol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021, parhaodd gwasanaethau eiriolaeth statudol i gynnig dau fath o ymyrraeth eiriolaeth: y Cynnig Gweithredol ac Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion.

Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion

Mae'n gadarnhaol nodi bod cyfanswm o 3960 o blant a phobl ifanc wedi derbyn Eiriolaeth yn Seiliedig ar Faterion rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, gyda 5707 o faterion.

Cynnig Gweithredol

